



Cytundeb ar gyfer Adneuo

Dyddiedig ydiwrnod o200

Gwneir y Cytundeb hwn

Rhwng

Cyngor Sir Fflint (yn gweithredu ar ran Archifdy Sir Fflint) Yr Hen Reithordy, Penarlâg, Sir Fflint, CH5 3NR ("y Cyngor")

A ENW A CHYFEIRIAD
..... ("Y Benthyciwr")

Yn gymaint â bod

Y Cyngor yn cytuno i dderbyn a chadw'r cofnodion sy'n ymwneud â hanes Sir Fflint, a gwneud darpariaeth i'w storio a'u dangos i'r cyhoedd. Byddant yn dal yn eiddo i'r Benthyciwr, a chânt eu cadw er lles y cyhoedd gan y Cyngor.

1. Diffiniadau

Ystyr "**Adneuo**" fydd rhoi dogfennau a/neu gofnodion gan Fenthyciwr i'r Archifdy

Ystyr "**Benthyciwr**" fydd yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n adneuo unrhyw gofnod i'r Cyngor, neu ei /eu h/etifedd neu olynnydd yn ôl teitl, beth bynnag bo'r gofyn

Ystyr "**Cofnodion**" yw'r defnyddiau y bydd y Benthyciwr yn ei roi yng nghystodaeth y Cyngor ac sydd yn cael eu rhestru yn yr atodlen amgaeedig.

Ystyr **DHDP** yw Deddf Hawlfraint Dyluniadau a Phatentau 1988

ystyr **DRhG** yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

2. Cyfnod

Bydd y cytundeb hwn mewn grym o ddyddiad y Cytundeb nes ei ddi-ddymu yn unol ag amodau cymal below ("y Cyfnod").

3. Gwarantau

3.1 Mae'r Benthyciwr yn gwarantu:

- (i) ei hawl i'r Cofnodion yn rhydd a dilyffethair, a bod ganddo'r hawl a'r awdurdod cyfreithiol i'w hadneuo o dan delerau'r cytundeb hwn; a
- (ii) bod y Cofnodion yn cyd-fynd â'r defnydd sydd yn yr Atodlen.

3.2 Bod Y Benthyciwr yn trosglwyddo unrhyw hawlfraint yn y Cofnodion a roddwyd iddo neu iddi i'r Cyngor, os na ddatgenir hynny yma.

4. Ymrwymiad y Cyngor

4.1 Ceidw'r Cyngor yr hawl i roi unrhyw gofnod a ystyrir heb fod o ddiddordeb hanesyddol yn ôl i'r Benthyciwr, neu, gyda chaniatâd y Benthyciwr, ei drosglwyddo i le adneuo mwy addas neu ei ddifa.

4.2 Bydd y cofnodion yn cael eu storio yn adeilad Archifdy Sir Fflint (yr "Adeilad"), a bydd y Cyngor yn cymryd pob rhagofal rhesymol i warchod y cofnodion rhag difrod, colled neu ladrad yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.

4.3 Bydd Cofnodion sy'n cael eu storio yn yr Adeilad yn cael eu hyswirio gan y Cyngor o dan ei bolisi yswiriant Adeiladau Cyffredinol (Cynnwys) rhag peryglon cyffredin fel tân, stormydd mellu a llifogydd ar sail cost adferiad. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled fydd yn digwydd wrth drwsio unrhyw eitem, oherwydd saernïaeth ddiffygiol neu achos arall yn ystod y Cyfnod yng nghystodaeth y Cyngor.

4.4 Os ystyria'r Cyngor bod angen gwaith trwsio neu gadwraeth er mwyn cadw eu hansawdd, bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda'r Benthyciwr i drafod y gwaith a phwy ddylai dalu amdano

5. Catalogio

5.1 Gall y Cofnodion gael eu rhestru, eu rhoi ar fynegai neu gatalog yn unol â safonau lleol a chenedlaethol. Gall y cyhoedd gael mynediad i gatalogau a rhestrau neu fynd ar y we. Bydd yr hawlfraint a pherchnogaeth mewn catalogau a chymhorthion ymchwil eraill yn eiddo i'r Cyngor. Gall y dogfennau gael eu marcio gyda chyfeirnod mewn pensil.

6. Mynediad

6.1 Yn amodol ar Adran 6.2 isod, bydd hawl gan y cyhoedd i weld y Cofnodion at bwrpas ymchwil yn Archifdy Sir Fflint yn ystod yr oriau agor sydd wedi eu hysbysebu, yn amodol ar gydymffurfio â Rheoliadau'r Ystafell Ymchwilio.

6.2 Drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y Benthyciwr a'r Cyngor (fydd yn gweithredu drwy'r Prif Archifydd), gellir rhoi cyfyngiad ar fynediad cyhoeddus i Gofnodion Unigol.

6.3 Gall Cofnodion beidio â bod ar gael ar gyfer ymgynghoriad nes i dderbynneb gael ei hanfon at y Benthyciwr, a hyd nes i restr gael ei chreu. Gellir gwrthod mynediad i'r Cofnodion sydd heb eu rhestru a'u rhifo, neu'n fregus, neu angen eu trwsio.

7 Hawlfraint

7.1 Bydd raid i'r Benthyciwr indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw rwymedigaeth o ran hawlio tor-hawlfraint.

- 7.2 Gellir copïo'r Cofnodion o dan ddarpariaeth delio teg y *DHDP* (adrannau 29 a 30) ar gyfer gwaith ymchwil anfasnachol, astudiaeth breifat, beirniadaeth, adolygiad ac adrodd newyddion, yn ôl disgrisiwn aelod o staff yr Archifdy, ac ar daliad o'r gost gyfredol. Ni ellir ail-gopïo heb ganiatâd y Prif Archifydd..
- 7.3 Os nad oes cytundeb i'r gwrthwyneb, gall y Prif Archifydd awdurdodi cyhoeddi Cofnodion, yn gyfan neu'n rhannol, yn amodol ar ddarpariaethau'r *DHDP*. Os dymuna'r Benthyciwr, bydd y cyhoeddi'n amodol ar roi cydnabyddiaeth i'r Benthyciwr.
- 7.4 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyhoeddi Cofnodion yn gyfan, neu'n rhannol yn ei gyhoeddiadau ei hun heb ganiatâd pellach oddi wrth y Benthyciwr, ar yr amod bod cydnabyddiaeth yn cael ei wneud yn unol â darpariaeth yr *DHDP*.
- 7.5 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud copïau o'r Cofnodion ym mha gyfrwng bynnag ar gyfer defnydd cyhoeddus neu i gadw'r gweithiau gwreiddiol. Yn amodol ar *DHDP*, bydd y Cyngor yn berchen holl hawlfreintiau'r copïau neu atgynhyrchiadau.

8 Arddangosfa

- 8.1 Gellir arddangos Cofnodion heb ganiatâd pellach y Benthyciwr mewn arddangosfeydd bychain neu dymor byr a gynhelir yn yr adeiladau o dan reolaeth y Cyngor.
- 8.2 Ceisir caniatâd ysgrifenedig y perchennog ar gyfer arddangosfeydd mawr, neu mewn adeiladau sydd ddim o dan reolaeth y Cyngor. Nid fydd Cofnodion yn cael eu benthycu ar gyfer arddangosfeydd o'r fath heb ganiatâd ysgrifenedig y Benthyciwr.

9. Tynnu Allan Dros Dro

Pe bae'r Benthyciwr yn rhoi rhybudd o 10 diwrnod gwaith i'r Cyngor, gall y benthyciwr dynnu'r Cofnodion allan yn llawn neu'n rhannol hyd at 2 fis. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod i'r Cofnodion yn ystod y cyfnodau tynnu allan dros dro.

10. Tynnu Allan Parhaol

- 10.1 Mewn achos lle bydd y Benthyciwr yn tynnu allan y Cofnodion bydd gan y Cyngor yr hawl, os na chytunwyd yn wahanol, i dderbyn iawndal oddi wrth y Benthyciwr am holl gostau rhesymol y Cyngor am gadwraeth, gwarchodaeth neu waith atgyweirio a wnaethpwyd i'r Cofnodion.
- 10.2 Rhaid i'r Benthyciwr roi 2 fis o rybudd i'r Cyngor am dynnu allan y Cofnodion sy'n cymryd lle i fyny hyd at 3 metr llinol, a 6 mis am Gofnodion dros 3 metr llinol, neu rybudd cyfnod hirach fel sydd ei angen gan ddarpariaeth statudol benodol, i gopïo rhai o'r Cofnodion neu'r cwbl. (gweler 10.3)
- 10.3 Yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yn 10.2 bydd hawl gan y Cyngor i gopïo rhan o'r Cofnodion neu'r cwbl, a chadw copïau fel eiddo'r Cyngor ar ôl symud y Cofnodion. Bydd y Cyngor yn parhau i wneud copïau'n

hygyrch i'r cyhoedd, yn unol ag amodau a chyfyngiadau a osodir yn Adran 6 uchod.

11. Opsiwn i brynu Cofnodion

Mewn achos lle mae'r Benthyciwr yn bwriadu gwerthu rhai Cofnodion neu'r cwbl, bydd y Cyngor yn cael y cyfle cyntaf i'w prynu ar gost i'w gytuno rhwng y Benthyciwr a'r Cyngor ar sail prisiant annibynnol.

12. Newid amgylchiadau

Rhaid hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid mewn enw neu gyfeiriad y Benthyciwr. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau a allai godi oherwydd methiant i roi gwybod am newidiadau o'r fath.

13. Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol

Gall gwybodaeth sydd yn y Cofnodion gael ei datgelu i drydydd parti o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, neu os yw'r wybodaeth yn Wybodaeth Amgylcheddol fel y diffinnir hi yn Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

14. Gwarchod Data

Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â darpariaethau Deddf Gwarchod Data 1998 bob amser.

.....
Arwyddwyd gan neu ar ran y Benthyciwr

.....
Arwyddwyd ar ran y Cyngor